***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 4. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

## DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH CYDNABOD CYRFF DYFARNU

*Amodau arbennig y caniateir i gydnabyddiaeth fod yn ddarostyngedig iddynt*

4 (1) Caniateir i'r gydnabyddiaeth o gorff, yn ychwanegol, gael ei gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw amodau eraill ("amodau arbennig") a bennir gan Gymwysterau Cymru, naill ai ar adeg cydnabod y corff neu wedi hynny.

(2) Caiff yr amodau arbennig gynnwys—

(a) amodau capio ffioedd;

(b) amodau trosglwyddo;

(c) amodau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cydymffurfio â chyfarwyddydau a roddir o dan y paragraff hwn gan Gymwysterau Cymru.

(3) Caiff amodau arbennig wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, gan gynnwys ymhlith pethau eraill drwy gyfeirio at—

(a) cymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymhwyster (gan gynnwys drwy gyfeirio at ba un a yw cymhwyster yn gymhwyster a gymeradwywyd neu'n gymhwyster sydd wedi ei ddynodi o dan adran 29 ai peidio);

(b) amgylchiadau gwahanol y dyfernir cymhwyster odanynt;

(c) disgrifiadau gwahanol o berson y dyfernir cymhwyster iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** Atod. 3 para. 4 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 4.